YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI
A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 39. RHIF 10 MAWRTH 2018 50c

# Dau Ddarlithydd yn Lerpwl




*Brian Thomas (llywydd y noson) gyda'r darlithydd Cledwyn Thomas*



*Anne M. Jones, Allerton gyda'r niwrolegydd adnabyddus, Dr. Rhys Davies*

# TESTUN DARLITH

Ceir adroddiad am y ddarlith yn adroddiad Cymdeithas Cymry Lerpwl ond cofier fod Gŵyl y Gwasanaeth Iechyd ar 7/8 Gorffennaf 2018.

**Bore Sadwrn, 8/7/2018**
*I annerch yr ŵyl:* Dr. Rhys Davies,
Dr. John G. Williams, Dr. D. Ben Rees,
Yr Athro Mari Lloyd Williams ac eraill.

**Nos Sadwrn: 8/7/2018**
Cyngerdd yng Nghapel Elm Hall Drive.

**YN Y RHIFYN HWN -**
Golygyddol (Dewi Sant ac Oes y Saint)
Newyddion Bethel, Bethania, Cymry Birkenhead a Cymry Lerpwl, Birkenhead. Tudalen Hamddena, Colofn y Myfyrwyr, Ysgrif goffa am Miss Dorothy Williams a Mr. Ralph Jones



*Aneurin Bevan*

Golygyddol

# DEWI SANT AC OES Y SAINT –

## gan D. Ben Rees

Perthyn i Oes y Saint yn hanes Cymru a wna ein nawddsant Dewi. Ac felly fe'i ganwyd mewn cyfnod hynod o bwysig, oherwydd yn y cyfnod hwnnw o'r flwyddyn 388 hyd 650 o oed Crist oedd yr oes aur. Dyma'r cyfnod pan ddaeth Cristnogaeth yn rym y tir a chyfnod gosod y llannau a dysgu'r bobl yn yr hanfodion oedd yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Dyma gyfnod ffurfio'r iaith Gymraeg fel iaith cyfathrebu a pherswadio y rhai a'i defnyddiai i ehangu ei photensial ar lwybr diwylliant. Yn oes y Saint y cawsom ymateb i'r Sialens, a chrewyd cerddi a darnau o ryddiaith, defnyddiwyd paent ar furiau a phlygwyd glin gerbron yr allor oedd yn cynrychioli y byd anweledig. Daeth y mynach Dewi yn dra hoff o sôn am yr Anweledig fel y Perganiedydd ganrifoedd ar ei ôl. Trawodd Frances Thompson yr holen ar ei phen wrth ddisgrifio y byd anweledig fel hyn:

*O fyd anweledig, fe'th welwn*
*O fyd anghyffyrddadwy, fe'th gyffyrddwn,*
*O fyd anwybodadwy, fe'th wybyddwn,*
*O fyd diamgyffred, fe'th amgyffredwn.*

Dweud da, ac yn yr oes pan oedd yr Anweledig yn mynnu cael ei gydnabod, y gwelwyd cenedl yn dechrau ar ei chyfraniad. Nid oedd cenedl y Cymry yn bod cyn hyn. Dewi ac eraill a'i creodd – ei heglwys a anwylai anifeiliaid mud, ei llysoedd oedd am ymlid heresi o'r tir, a'i chymdeithas oedd yn anwesu ei gilydd mewn byd mor anodd i oresgyn, afiechyd, damweiniau, a tywydd garw. Er nad y saint oedd yn gyfrifol am bob agwedd o'r genedl Gynraeg, hwy oedd y teithwyr a gludai y Gymraeg a'r efengyl o fan i fan, ac o wlad i wlad. Ond bu'r saint yn ffodus fod y Rhufeiniaid wedi ymddiddori cymaint yng Nghymru. Gwelodd y Rhufeiniaid fod Iwerddon yn wlad rhy anodd i'w gwareiddio. Adeiladodd y Rhufeiniaid ddinasoedd i gynorthwyo'r Cymry fel Caerleon, Caerfyrddin a Caernarfon a ffyrdd da fel yr enwog ffordd Sarn Helen. Rhedai'r ffordd honno yr holl ffordd o Gaerfyrddin i Gaernarfon a hwylusodd hi i'r diwinyddion ac arweinwyr yr Eglwys a gyfarfu yn Llanddewi Brefi yn y Synod bwysig honno i ymlid ymaith heresi Pelagiaeth. Dyna ei orchest fwyaf. Pregethu mewn Senedd yn Llanddewi Brefi a chododd y tir o dan ei draed fel y clywid gan bawb o'r dyrfa a ddaeth ynghyd.

Erbyn y deuddegfed ganrif daeth Dewi Sant yn ffigur rhyngenedlaethol. Yr oedd y gwledydd Celtaidd i gyd yn gyfarwydd a'i enw, a cheir aml i gyfeiriad ato mewn ffynonellau Gwyddelig o'r wythfed a'r nawfed ganrif. Tyfodd gymaint o draddodiadau di-sail amdano ond ffug-hanes ydyw y cyfan hynny. Meddyliwn am y traddodiad, ei fod ef a Theilo a Phadarn wedi mynd ar bererindod i Jeriwsalem, lle y cysegrwyd ef yn archesgob. Hanesyn blasus ond heb sail hanesyddol. Ond am ganrifoedd cynhaliwyd Gŵyl Ddewi fel gŵyl grefyddol ond ar ddyfodiad Y Diwygiad Protestannaidd yn yr unfed ganrif ar bymtheg diflannodd y dathlu hyd canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Erbyn heddiw y mae cryn ddathlu mewn oedfaon a chiniaw yn arbennig ymhlith y Cymry alltud.

Y gwir yw fod fwy o ddathlu Gŵyl Ddewi y tu allan i Gymru ag a geir o fewn gwlad y Nawddsant. Gallwn ddeall hynny ar ryw olwg ond ar yr olwg arall mae'n adlewyrchu ar wendid y Cymry. Ond croesawir y symudiadau a gymerodd le yn y blynyddoedd diwethaf yn y Brifddinas yng Nghaerdydd a hefyd yn nhref Aberystwyth lle y gorymdeithir ar hyd strydoedd y ddinas. Ond gwnawn yn fawr o'r hanes a'r cenhadon dewr ac anturus fel Samson a weithiodd yn galed yn Cernyw ac yna ar draws y môr i Lydaw, Nynio yn gofalu fod y Pictaid yn clywed am y 'Gair a ddaeth yn gnawd' ac yna Padrig, y Cymro o ddyffryn Nedd, a gysylltir yn gyfangwbl bellach gyda'r Ynys Werdd. A chofiwn am yr Ysgol yn Llanilltud Fawr (gellid ei galw yn Brifysgol) lle y cafodd Samson a Dewi ei hyfforddi yn hanfodion ysgolheictod. Ceid brwdfrydedd mawr yno gan mae'r prif ysgolhaig oedd Illtyd, medrai ef gael pob un yn llythrennog ac i ddeall arwyddion yr amserau. Bendith ar bawb ohonoch gaiff gofio Dewi Sant ar Mawrth y Cyntaf eleni, neu yn agos at hynny, y flwyddyn hon.

## APÊL YR ANGOR AR GYFER DATHLIAD Y DEUGAIN MLYNEDD O'R PAPUR BRO, MEHEFIN 2019

**Diolchir i'r canlynol am y gefnogaeth a dderbyniwyd hyd yn hyn ac a ddeilliodd fel canlyniad i'r Apêl a gafwyd yn rhifynnau Tachwedd 2017 a Rhagfyr 2017 /Ionawr 2018 o'r Angor**

**A) Rhestr Cyfrol 39, Rhif 9 Chwefror 2019**
12 o roddion .......................................................£2,050

**B) Rhestr Mawrth 2018**
1) Mr. Eryl Wynne Jones, Woolton ........................................£180
2) Idris a Mair Roberts, Allerton, Lerpwl ............................ £180
3) Brian a Hilda Thomas, Mossley Hill, Liverpool ...............£180
4) Cymdeithas Cymry Lerpwl ................................................£50

**Cyfanswm hyd at 30/1/2018...................£2,640**

Mae'n bosibl i wneud taliad am unrhyw swm i fyny i'r adeg pan y bydd yr Apêl yn dirwyn i ben, ym mis Mehefin 2019. Yn ein Pwyllgor Gwaith fe glustnodwyd **Sadwrn, 29 Mehefin a Sul, 30 Mehefin 2019 fel dyddiad i ddathlu Deugain Mlynedd yr Angor. Yr ydym am Ddathlu yn deilwng am nifer o resymau unigryw.** Cadwch y dyddiad yn rhydd.

i) Dyma'r unig bapur bro a'r cyfan yn Gymraeg sydd wedi ymddangos y tu allan i Gymru am gyfnod mor hir. Ni cheir hyn mewn unrhyw ddinas arall yn Lloegr (e.e. Llundain, Birmingham, Bryste ac ati).
ii) Bu'r papur bro o dan olygyddiaeth un person trwy'r cyfnod ac mae hynny yn ffenomenon go arbennig yn hanes papurau bro.
iii) Pan ddaw *Cyfrol y Dathlu* allan fe welir fod y cynnyrch helaeth o'r rhifynnau wedi ei ysgrifennu gan Gymry yn byw yn Lerpwl, Cilgwri, Manceinion, talgyrch *Yr Angor.*

Gellwch gysylltu gyda fi unrhyw adeg a byddaf yn barod iawn, a hefyd ein Trysorydd i dderbyn unrhyw rodd tuag at Ŵyl yr Angor a ddymunir ei roddi.

*Gyda diolch,*
*Dr John G. Williams*
*(Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Angor)*

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Mynegwyd cydymdeimlad dwys gan ein Gweinidog ar Sul, 28 o Ionawr gyda dau deulu yn eu profedigaethau. Collodd Mr. John P. Lyons ei chwaer yn Môn ar ôl ychydig wythnosau yn Ysbyty Gwynedd, a bu'r cynhebrwng ar fore Sadwrn, 27 o Ionawr yng Nghapel y Bedyddwyr Rhydwyn o dan ofal y Parchedig Emlyn Richards. Cydymdemlir a'r holl deulu yn yr hiraeth a'r golled fawr yn ei hanes. Daw y byd anweledig yn agos atom ar golli anwyliaid a fu'n rhan o'n bywyd ar hyd y cenhedlaethau. Gweddïwn drostynt oll, meibion a'r ferch a priod, John a Marian a'r teulu.

Daeth y newydd nid annisgwyl o ymadawiad ein haelod hynaf, Miss Dorothy Williams, Blundellsands yn yr Ysbyty a hithau wedi dathlu ei phen-blwydd yn gant oed ar 25 Medi 2017. Ganwyd a magwyd hi ar y Glannau ac ymhyfrydai yn ei chefndir a'i theulu a fu mor annwyl ohoni. Bydd yr arwyl ar bnawn Gwener, Chwefror 9 yn Amlosgfa Thornton, Gogledd Lerpwl. Cydymdeimlwn gyda'i anwyliaid, ei ffrindiau a hefyd y gymuned Bresbyteraidd yn Christ Church, eglwys Bethania.

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Ar ddechrau ail dymor ar 22 Lonawr pleser oedd croesawu cyfaill arall o Lerpwl pan ddaeth Roderick Owen a Norma i sgwrsio am "Yr Eneth Gadd ei Gwrthod".

Esboniodd Roderick ar y dechrau mae nid am *Yr Eneth Gadd ei Gwrthod* y canwyd gymaint amdani drwy Gymru gyfan oedd testun y sgwrs, ond yn hytrach bod y testun yn awgrymiadol o gynnwys ei stori. Yr oedd i'r stori dristwch a llawenydd.

Cyflwynodd Roderick stori wir am ddyn 60 oed o Blackburn wedi ei fagu yn unig blentyn yn darganfod drwy ddogfennau a ddarganfyddodd ar ôl i'w rieni farw ei fod wedi cael ei fabwysiadu. Felly, hynny am y tro cyntaf, mae enw ei fam fedydd ar gael iddo a bod ei chartref mewn pentref bychan yng Nghymru.

Mae y darganfyddiad yma yn codi llawer o gwestiynnau ym meddwl y gŵr, e.e. Oedd ei fam yn dal yn fyw, ac a oedd ychwaneg o deulu iddo yn Blackburn neu yng Nghymru. Rhaid bellach oedd cael gwybod mwy am ei fam, pwy oedd hi a beth oedd ei hamgylchiadau a mwy pwysig bellach, os oedd hi yn fwy neu beidio.

Fel canlyniad i ymholiadau yn defnyddio cyfryngau ymholiadau teuluol daeth ffeithiau i'r amlwg bod ei fam wedi symud i Lerpwl. Yr oedd tystiolaeth iddi briodi a gŵr Sineaidd ac hefyd bod iddi ddau yn ychwaneg o blant ac hefyd iddi farw yn Lerpwl.

Mae y stori yn mynd ymlaen yn ddiddorol i egluro yr ymholiadau a wnaed am fanylion pellach o hynt a helynt y teulu i gyd yn Lerpwl ac ym mro ei phlentyndod am ddyddiau cynnar y fam a beth ddigwyddodd iddi orfod roddi ei mab i fyny a cael ei fabwysiadu yn Blackburn.

Mae y ffeithiau yn llawn tristwch am ferch a gollodd ei mam ar ei genedigaeth, a syrthiodd yn feichiog yn ifanc ac yn llythrennol cael bod "drws tŷ ei thad wedi gloi" fel canlyniad. Dyna'r tristwch, ond daeth llawenydd trwy i'r gŵr ddarganfod bod iddo hanner brawd yn dal yn fyw, ac y mae y ddau na wyddent am ei gilydd


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -

CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

cyn hyn, bellach wedi cyfarfod ac yn cyfathrebu â'i gilydd. Dyna ddiweddglo hapus i stori na all neb ei anghofio.

Mae Roderick Owen yn storïwr naturiol, gafaelgar ac fe'n tywysodd ni yn ofalus drwy ddirgelion y stori gyffrous fel pe bai yn gyflwynydd teledu. Cadwodd ni oll ar flaenau ein seddau.

Llywydd y noson oedd Glenys Wilkinson a diolchodd i Roderick am noson arbennig o ddiddorol a phleserus. Beryl Van Beck oedd y cyfeilydd a Iola, Kitty ac Eirwen a ofalodd am y te.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Ar y Sul cyntaf o'r flwyddyn roedd yr oedfa yn gyfle i ni adnewyddu ein ffydd ac i dderbyn o'r sacrament o Swper yr Arglwydd o dan arweiniad ein gweinidog y Parchedig Ddr. D. Ben Rees.

Manteisiwyd ar y cyfle i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda iddo ef a'i briod Meinwen, a chan ddiolch iddo am ei wasanaeth di-flino gydol y flwyddyn ddiwethaf, ac i ni oll edrych ymlaen yn hyderus i'r flwyddyn newydd.

Nos Lun, Ionawr 8fed Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn o dan ofal Mair Powell, ysgrifennydd y Gymdeithas Lenyddol.

Daeth cynulliad da ynghyd ar noson aeafol iawn. Crewyd naws arbennig iawn gan naw o'n haelodau drwy fyfyrdodau, darlleniadau, gweddïau, canu emynau a datganiad gan Anne, Margaret ac Ifor.

Da oedd cael bod yno i ail-gysegru i ddal ein gafael yn llaw gadarn Duw. Diolch Mair am drefnu gwasanaeth mor amserol ar ein cyfer.

Nos Lun, Ionawr 22 o dan nawdd y Gymdeithas Lenyddol cafwyd darlith feddygol gan Dr. Rhys Davies, yr ymgynghorwr niwrolegol yn Ysbyty Walton. Cymro o Efailnewydd yw Rhys, wedi derbyn ei addysg yn yr ysgol leol, yna Ysgol Glan y Môr, Pwllheli cyn symud ymlaen i Brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt.

Drwy gyfrwng darluniau ar y sgrin eglurodd i ni rwydwaith yr ymennydd. Gwaith niwrolegydd yw gwybod sut mae'r ymennydd yn gweithio, sut mae gofalu a thrin claf a darganfod lleoliad y drwg. Mae nerfau'r ymennydd fel gwifrau yn anfon negeseuau, a chelloedd yr ymennydd yn cyfathrebu, ond rhaid cael egni iddynt weithio, i symud, i amgyffred, i gynllunio, i feddwl. Mae biliynau o'r celloedd hyn yn yr ymennydd.

Mor gymhleth yn gwnaed, ac eto mor ryfeddol.

Llywyddwyd y noson gan feddyg arall, ac arbenigwr yn ei faes ei hun, Dr. John Williams, a diolchwyd i'r ddau gan Lywydd y Gymdeithas. Gobeithiwn cael cwmni Dr. Rhys Davies i Ŵyl Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi ar Sadwrn 7 Gorffennaf yn y Ganolfan.

Anfonwn ein llongyfarchiadau fel eglwys at Carys Williams, 14 Menlove Gardens North ar ei phenodiad yn Swyddog Cyswllt gyda Chyngor y Celfyddydau, gyda chyfrifoldeb dros gerddorfa Philarmonic Lerpwl, yr Hale ym Manceinion ag opera Y Gogledd yn Leeds. Bydd yn cychwyn ei swydd newydd ym mis Chwefror.

Mae'r bedwaredd gyfrol o emynau a disc o gôr CFI Caerdydd allan yn barod. Diolch i Mr. Ted Clement-Evans am noddi y gyfrol hon eto. Mae ar werth ym Methel neu ar y we www.coraucymru.com Pris £10.

Cydymdeimlwn â Mr. John Lyons o Eglwys Bethania ar golli ei chwaer yn Rhydwyn, Ynys Môn. Bu Marian ac yntau yn ofalus ohoni.

Mae ein meddyliau a'n gweddïau hefyd am Miss Iris Hughes-Jones o eglwys Seion, Penbedw sydd mewn gwaeledd a llesgedd ar hyn o bryd.

Bu llawer o gwyno ym Methel o'r anwyd a'r ffliw ym mis Ionawr. Mae 'na arwyddion o'r Gwanwyn yn y tir, y blagur yn ail-ymagor a'r dydd yn ymestyn.

Cydymdeimlwn â Mrs Elan Jones, 3 Rathmore Avenue ar golli ei brawd Rhys ym Mhatagonia. Er y pellter rhyngddynt roedd eu perthynas yn agos a chadwai mewn cysylltiad â Rhys ar y ffôn ynghyd â gweddill ei theulu.

Edrychwn ymlaen i ddathlu Gŵyl ein nawdd Sant ar Fawrth y cyntaf. Mae'r cinio yng Nghlwb Golff Woolton, am 7.30 a'r gŵr gwadd eleni yw Mr. Wynford Ellis-Owen, Caerdydd. Mae tocynnau ar werth am £25 gan aelodau o'r Gymdeithas Lenyddol.

**_Angen Copïau o'r Angor (1979 -2018)_**

Os oes rywun rhywle wedi cadw pob copi o'r *Angor* ers Mehefin 1979 byddai Bwrdd yr Angor yn falch o'i benthyg er mwyn trefnu y gyfrol arfaethedig.
Nid oes iddi deitl eto?
*Os oes awgrym gan rywun anfoner ef i'r Golygydd.*

***Myfyrdod***

# YR WYTHNOS FAWR

Pan oeddwn yn y fyddin roedd gen i gyfaill o Sir Efrog ac fe ddywedai ar lawer achlysur, *"Taff, there's nowt so queer as folk"* ac mewn ateb dywedais wrtho roedd "*folk*" yn "*wit-wat*" hefyd. Rydw i'n sicr eich bod i gyd wedi gweld hyn, efallai i'ch cost. Yn wir, un funud cewch eich canmol a'ch anwybyddu y funud nesaf. Dyna yw bywyd ynte?

Pan mae hanes yr Wythnos Fawr yn datblygu mae Sul Y Blodau yn sefyll allan fel tystiolaeth o anghysondeb dynol *(Human inconsistency)*. Roedd torf wedi ymgynnull i roddi croeso i'r Iesu i Jeriwsalem am Ŵyl Grefyddol y flwyddyn. Mae'n siwr bod y bobol yn ceisio dyfalu beth oedd gan y "Gweithiwr Gwyrthiol" i ddweud ac efallai wneud. Roedd *"crowd fever"* wedi cael gafael arnynt ac fe taenodd eu dillad ac estyn dail y palmwydd a gwaeddi "Hosanna." Ond roedd sioc yn disgwyl fel dywedodd Mathew pan ddaeth Iesu i Jeriwsalem fe ofynnwyd "pwy yw hwn?" ac mewn llai na diwrnod roedd barn y bobol wedi newid NEU wedi cael ei wyrdroi gan y *"spin-doctors"* oherwydd nid yw rhain ond yn perthyn i'r byd modern yr unig.

Newidiwyd y gân "Hosanna" i "Croeshoelier Ef" heb aros am eiliad i weld eu hanghysondeb. Credaf nad oedd pawb yn dilyn y dorf yn eu meddyliau ond i'r mwyafrif erbyn Dydd Gwener y Groglith roedd yn hanes ddoe. Dydw i ar bob cyfri ddim eisiau i chi feddwl fy mod yn barnu'n llym ond bod di-faterwch yn bechod hefyd. Cofiaf ddarllen darn o farddoniaeth gan G.A. Studdart-Kennedy "*Indifference*" ac yn yr ail bennill mae'n dweud fod Crist wedi dod i lawr i Birmingham a petasa pobol wedi *"grown more tender"* a pheidio achosi iddo poen ond na fe basiwyd ef yn y stryd a gadael iddo farw. Ac yma, mi greda i, mae dirgelwch pan groeshoeliwyd yr Iesu fe weddiodd gweddi ddwys iawn sef "O Dad, maddeu iddynt canys ni wyddant pa beth maent yn ei wneuthur".

Gweddi arbennig ar gyfer y milwyr a gurodd yr hoelion, y rhai oedd yn anghyson yn y dorf, yr arweinwyr crefyddol a gynlluniodd ei farwolaeth, y Jiwdas a werthodd gyfaill am arian, y disgyblion a ddangoswyd yn wan-galon ac yn wir PAWB a gaeodd y drws yn neis yn ei wyneb a dweud "Dim heddiw, diolch yn fawr".

IE, GYFEILLION ANNWYL – Y WEDDI FAWR TU HWNT I BOB DIRNADAETH YDYW: "O DAD MADDEU IDDYNT" …… DYNA YW CARIAD YN EI BERFFEITHRWYDD.

***ELWYN***

*Ysgrif Goffa*

# Miss Dorothy Williams

## (1917-2018), Blundellsands, Lerpwl

**Ar 24 Ionawr 2018 yn Ysbyty Fazarkley y bu farw Miss Dorothy Williams a hithau wedi goroesi ei chanrif a blwyddyn newydd. Hi oedd y Gymraes hynaf yn perthyn i'r Cymunedau Cymraeg ar lannau Mersi ac wedi llwyddo i fyw yn annibynol hyd y diwedd. Ganwyd hi yn Anfield, yn ferch i'r adeiladydd Thomas Williams a'i briod. Yr oedd yn un o bedwar o blant, ond bu farw Philip yn ddeuddeg oed a'i brawd arall William ym mlodau ei ddyddiau. Bu'r profedigaethau hyn yn anodd iddi hi a'r teulu, ac ar ben hyn oll, bu farw ei mam pan oedd Dorothy ond yn ddeg oed. Nid rhyfedd bod perthynas agos iawn rhyngddi hi a'i chwaer Gwen, a fu fyw hefyd ymhell dros ei chan mlwydd oed.**

**Adeiladodd Thomas Williams yn helaeth yn ardal Anfield, ef a'i gwmni oedd yn gyfrifol am lu o dai hyfryd yn Stanley Park Avenue. Magwyd Gwen a Dorothy yng nghapel Bethlehem, Douglas Road lle y trwythwyd y ddwy yn yr iaith Gymraeg a hanfodion y ffydd.**

**Symudodd y teulu i Blundellsands lle bu ei thad yn brysur yn adeiladu yng Ngogledd Lerpwl. Cafodd hithau gyfle i weithio ym myd twristiaeth. Yn ferch ifanc treuliau misoedd yr haf, am rai blynyddoedd yn Cernyw yn gweithio i'r gwestai. Yn ddiweddarach bu yn gweithio i Jack Jackson gyda'i barc carafannau yn Formby ac am flynyddoedd lawer i gwmni gwerthu tai, H. H. and J. Robinson, South Road. Gweithiai yn yr adran ariannol lle yr oedd yn hynod o boblogaidd gyda'i chyd weithwyr.**

**Cofiwn amdani fel gwraig oedd yn gwerthfarwogi**

**i) Ei chefndir a'i chartref a'i cheraint. I'r teulu adnabyddid hi fel Dodo.**

**Soniai gryn lawer am ei thad gan edmygu ei gyfraniad ef fel adeiladydd yn Lerpwl. Dyna fu cyfraniad pennaf y Cymry. Byddai'n ymwybodol o'i gwreiddiau fel teulu yn Nyffryn Clwyd ac yn blentyn byddai'n treulio gwyliau haf gyda'r teulu yn Cyffylliog a Clawdd Newydd. Yr oedd yr annwyl John Glyn Roberts, cyfaill da, o'r un teulu a byddai yntau yn sôn am ddyddiau Dyffryn Clwyd. Gwerthfawrogai wisg dda a byddai bob amser wedi ei gwisgo yn drwsiadus yn nhraddodiad Cymry Lerpwl. Yr oedd dillad Sul yn golygu llawer iddi hi a byddai'n hoff o ddweud wrth rywun ei bod hi yn hoffi eich siwt neu eich tei neu ddarn arall a fyddai wedi mynd a'i bryd. Bu nith Gwen, Margaret a Debbie yn bopeth iddi, a byddai'n edrych ymlaen yn fawr o gael treulio'r Nadolig a thymhorau eraill yn Amersham a Phwllheli.**

**ii) Yn ail ei chyfeillion a'u cwmniaeth.**



*Dorothy Williams*

**Iddynt hwy Doll oedd yr enw i'w anwylo. Yr oedd ganddi gymaint o gyfeillion a byddai yn cysylltu o ddydd i ddydd â hwy. Llwyddai i wneud pawb yn ddiddig, ac yn y blynyddoedd diwethaf byddai yn dibynnu cryn lawer ar ei ffrindiau fel Anita a Linda; a Lauren oedd yn gofalu amdani, a Carol oedd yn gwneud ei gwallt. Edrychai ymlaen i hynny. Byddai Phyllis Weaver o gapel Bethania yn ofalus ohoni a chael mynd yn gyson i'r Capel, i Dobbie's am dro i le bwyta. Ac yna treuliau gwyliau'r Nadolig gyda Anita a Richard yn Park Drive lle y gofalid mor annwyl amdani. Roedd y cartref yn Warren Road yn ofalus amdani a llwyddwyd trwy ofal pobl fel Denise a Linda i'w gwarchod i ddiwedd y marathon o gan mlwydd oed.**

**iii) Cymdeithas y Capel a'r ffydd Cristnogol. I ni Dot ydoedd, caredig ei ffordd a chefnogol. Gwelodd newid aruthrol o'i phlentyndod i'w henaint yn hanes capeli Cymraeg Glannau Mersi.**

**Yr oedd hi yn wraig optimistaidd, ac yn amlygu llawenydd lle bynnag y byddai. Roedd ei gwên yn goleuo ystafell. Maer gair Groeg am lawenydd (chara) yn perthyn yn agos i'r gair am ras (charis - neu Carys fel yr ydym yn ei adnabod fel enw merch). Ymateb i garedigrwydd achubol Duw yw llawenydd a dyna wnaeth Dorothy Williams ar hyd ei bywyd llawn o rasusau'r efengyl. Gwerthfawrogai urddas yn y pulpud a phregeth ddidwyll gyda'r hwyl Cymreig yn ei hanfod. Clywodd rai o weinidogion dawnus ei henwad a gwerthfawrogodd pob gofal bugeiliol, y derbyniodd hi a'i chwaer gennyf am chwarter canrif. Daeth cynulleidfa gref i'w chydnabod a'i chofio ar 9 Chwefror a chydymdeimlwyd gyda Peter, Neil, Vicky a John, Margaret a Debbie o Bwllheli, a Glenys Roberts yn yr hiraeth ar ôl un a fu'n rhan annatod o'u bywydau.**

***D. Ben Rees***

Dros y 18 mis diwethaf mae

***Corau Cymru***

wedi cyhoeddi 4 CD yn y gyfres

**HOFF EMYNAU**

yr un diweddaraf gan
Gôr CF1, Caerdydd.

Mae pob CF yn cynnwys i fyny at 15 o emynau poblogaidd wedi eu recordio gan gorau adnabyddus.

Ar gael yn awr am £12 ynghyd â llyfryn sy'n cynnwys y geiriau a'r tonau oddi wrth

***www.coraucymru.com***

# CORNEL Y TRYSORYDD

## Mawrth 2018



| | |
|---|---|
| Mr Alun Davies, Gateacre | £20.00 |
| Mrs Rhiannon Liddell, Wavertree | £20.00 |
| Mr Rhys Williams, Coedpoeth | £10.00 |
| Miss Sara Williams, Lerpwl | £10.00 |
| Miss Carys Williams, Caergybi | £10.00 |
| Dr. Rhys Davies, Efailnewydd | £10.00 |
| Mr Gareth Lewis Jones, Graigfechan | £20.00 |
| Mrs Mair Nadolig Jones, Y Bala | £10.00 |
| Mr a Mrs Bryan Thomas, Mossley Hill | £20.00 |
| Mr Gareth Roberts, Lerpwl | £10.00 |
| Mr Alun Roberts, Llundain | £10.00 |
| Miss Elin Roberts, Llundain | £10.00 |
| Mr Dewi Roberts, Crosby | £10.00 |
| **Cyfanswm** | **£170.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**

# CYMDEITHAS CYMRY LERPWL

Wedi'r toriad am wyliau'r Nadolig a'r flwyddyn newydd ail ddechreuodd y Gymdeithas ar Ionawr 9fed gyda ocsiwn yn 5 Gwydrin Road. Roedd digon o bethau i'w gwerthu a gwnaed elw sylweddol i'r Gymdeithas.

Yr wythnos ganlynol daeth Cledwyn Thomas atom i sôn am un o deuluoedd enwog Lerpwl sef y teulu Rathbone. Mae'r teulu wedi byw yn Lerpwl ers yr ail ganrif a'r bymtheg ac wedi bod yn gyfrifol am fewnforio a allforio nwyddau dros y byd i gyd. Dros y canrifoedd mae llwyddiant y busnes wedi codi a disgyn. Crynwyr oedd y teulu i ddechrau ac felly'r oeddynt yn byw a gweithio yn ôl eu crêd. Clywsom am hynt a helynt y teulu dros y blynyddoedd. Erbyn heddiw Eleanor Rathbone yw'r un yr ydym ni yn gwybod amdani. Yn 1929 etholwyd Eleanor yn Aelod Seneddol dros y Prifysgolion Saesneg. Gweithiodd yn galed i wella amodau byw y di-waith, gwella budd-daliadau a lwfans teuluol. Yn niwedd y tridegau bu'n gweithio dros y ffoaduriaid o Sbaen, yr Almaen a Tsiecoslofacia. Yn 1942 rhoddodd Eleanor bwysau ar y llywodraeth i ddatgelu gwybodaeth am erchyllterau y Holocost. Mae sawl adeilad yn Lerpwl wedi eu henwi ar ei hôl e.e. Theatr Eleanor Rathbone yn y Prifysgol. Braf oedd cael gwybodaeth am y teulu pwysig yma a wnaeth gymaint o waith da dros drigolion Lerpwl a Phrydain.

Ar Ionawr 23ain daeth y Parch. Dr. D. Ben Rees atom i sôn am Aneurin Bevan. Mae'n saith deg mlynedd eleni ers sefydlu y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol ym 1948 ac Aneurin Bevan oedd yn gyfrifol am y gwasaneth er yr holl anhawsterau a gafodd.Ganwyd Aneurin Bevan ar Dachwedd 15ed yn 1897 yn 32 Charles St., Tredegar,Blaenau Gwent.Roedd yn fab i löwr David Bevan a'i wraig Phoebe ac yn un o ddeg o blant. Roedd ei dad yn siarad Cymraeg ond dim ei fam. Aeth i Ysgol Gynradd Sirhowy lle bu'n anhapus iawn. Gadawodd yr ysgol yn 12 oed er mwyn mynd i weithio yn y pwll glo gyda'i dad cyn mynd i Goleg Llafur yn Llundain. Daeth yn ôl i Dredegar yn 1921 ble bu'n ddi-waith am dair mlynedd.Yna aeth yn Gynghorydd ar gyngor tref Tredegar a Chyngor Sir Fynwy, ac yn 1929 yn 32 oed etholwyd ef yn Aelod Seneddol dros Glyn Ebwy. Gŵr oedd yn cefnogi y di-waith a'r rhai nad oeddynt yn derbyn budd-daliadau oedd Aneurin Bevan. Cyfarfu â Jennie Lee, a bu'r ddau briodi yn 1934. Yn 1945 fe etholwyd y Blaid Lafur i rym a'r Prif Weinidog oedd Clement Attlee. Penodwyd Aneurin Bevan er mawr syndod i'w elynion gwleidyddol, i swydd allweddol yn y Cabinet sef y Gweinidog dros Iechyd, Llywodraeth Leol a Tai. Roedd ganddo weledigaeth gynhwysfawr am y Gwasanaeth Iechyd a bu rhaid iddo frwydro yn galed am y gwasanaeth hyd 1948 . Roedd y Ceidwadwyr a rhai o'i blaid ei hun yn erbyn sefydlu y gwasanaeth ond y pennaf o'i wrthwynebwyr oedd Cymdeithas y Meddygon Prydeinig (*British Medical Association)*. Cafodd gefnogaeth holl bwysig ei gyfaill yr Arglwydd Moran a oedd yn Llywydd Coleg Brenhinol y Ffisigwyr a meddyg dylanwadol iawn. Roedd Aneurin Bevan yn ŵr gyda daliadau cryf oedd weithiau yn eithafol ac yn medru cynhyrfu y dyfroedd

Ei weithred fwyaf uchelgeisiol oedd sefydlu y Gwasanaeth Iechyd a ddaeth i fodolaeth ar y 5ed Orffennaf, 1948. Roedd yn Wasanaeth iechyd i bawb oedd yn byw ym Mhrydain. Dyma oedd gwaddol y bachgen o Dredegar er fod Winston Churchill wedi ei alw yn 'squalid nuisance'. Edrychwn ymlaen am fwy o hanes Aneurin Bevan yn y dathliadau sydd yn cael eu trefnu gan Gymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi ym mis Gorffennaf.


Ar y nos Fawrth olaf yn Ionawr cawsom sgwrs gan ein Llywydd, Roderick Owen, yn rhoi golwg hanesyddol ar wreiddiau ein cymdeithas. Agorodd Roderick ei sgwrs drwy ein hatgoffa o'r datblygiadau mwyaf cyfoes sydd wedi cymeryd lle o fewn yr hanner can mlynedd diwethaf. Clywsom fel y daeth 5 Aelwyd yr Urdd, Y Gymdeithas Gymraeg a Chymdeithas Cymru Fydd yn un bellach sef Cymdeithas Cymry Lerpwl.

Ond yr oedd y sgwrs am fynd a ni yn ôl i sefydliad y Gymdeithas Gymraeg gyntaf ar Lannau Mersi yn y flwyddyn 1885 a hynny dan y teitl *"The Liverpool Welsh National Society"*. Arweinwyd ni i gefndir ei sefydlu, amcanion y Gymdeithas, rheolau a pwy oedd pwy oedd yn gweithredu fel swyddogion, gyda neb llai na'r Arglwydd Mostyn fel Llywydd a rhestr hir o wahanol Arglwyddi ac enwogion eraill yn Is Lywyddion. Gwelsom engreifftiau o raglenni amrywiol y Gymdeithas gyda sylwadau, dyfyniadau ac engreifftiau o ddylanawadau gwladgarol a ddeilliodd o'r Cyngor. Tynnwyd ein sylw at seisnigrwydd y Gymdeithas yn ei holl natur.

Fel cefndir cyflwynodd Roderick ystadegau am nifer y pulpudau Cymraeg ar y Glannau ac aelodaeth yr Eglwysi gan ganolbwyntio mai dim ond 24,000 o bobol oedd a chysylltiad â chapel allan o'r 80,000 o Gymru a dybir oedd yn byw yma. Cawsom ddehongliad o'r tyfiant a gymerodd le ym mywyd a gwaith y Gymru yn sgil tyfiant y ddinas gyda charfan yn dod yn Gymry llwyddiannus ym myd busnes a masnach. Cyfeiriwyd at ddeuoliaeth y Cymry yn yr ystyr eu bod yn Gymraeg eu hiaith yn y cartref ond yn troi yn Saeson wedi gadael y tŷ am eu gwaith. Bathwyd yr ymadrodd "Sais pen ffordd a Chymro pen pentan" Cawsom engreifftiau noeth o adroddiadau'r Llyfrau Gleision a'r sylw dirmygus a wnaed at yr Iaith Gymraeg, hynny yn anad dim tybia Roderick a ysgogodd y Cymry yn Lerpwl i ddangos i'r byd bod ganddynt gyfraniad i'w gynnig. Yn sgil llwyddiant Eisteddfod Genedlaethol 1884 a gymerodd le yn Lerpwl y sefydlwyd y "Liverpool Welsh National Society" a gyfarfu am y tro cyntaf yn Hydref 1885. Yr oedd dros ddeg ar hugain o reolau llym gyda thâl aelodaeth o hanner gini'r flwyddyn, 5 swllt i ferched, hynny yn sicr yn cyfyngu'r aelodaeth i'r ychydig rai a oedd a'r modd i dalu. Serch hynny tyfodd yr aelodaeth i dros 300 erbyn 1900. Yn 1896 rhoddodd y Cyngor wahoddiad i'r Eisteddfod ddod i Lerpwl eto yn 1898 ond gorfod disgwyl tan 1900 cyn i hynny ddigwydd oherwydd i Blaenau Ffestiniog yr aeth yn 1898.

Gwnaeth y Gymdeithas yma gyfraniad mawr i'r bywyd Cymreig yn Lerpwl yn ei gweithgareddau amrywiol gyda dynion pwysig a dylanwadol wrth y llyw yn cyfrannu yn lleol ac ar lwyfan gwladgarol.

Diddorol oedd cael clywed sut y daeth ein Cymdeithas i fodolaeth a phwy a fu yma o'n blaen.



OFFICERS.

President:
The Right Hon. LORD MOSTYN.

Vice-Presidents:
His Imperial Highness PRINCE LOUIS-LUCIEN BONAPARTE.
The Right Hon. The EARL OF POWIS.
The Right Hon. LORD ABERDARE.
The Right Hon. LORD BOSTON.
The Right Hon. LORD SUDELEY.
The Right Hon. GEORGE OSBORNE MORGAN, M.P.
Colonel the Hon. W. E. SACKVILLE WEST.
Sir ROBERT A. CUNLIFFE, Bart.
Sir H. HUSSEY-VIVIAN, Bart., M.P.
Sir RICHARD WILLIAMS BULKELEY, Bart.
Sir T. D. LOVE JONES PARRY, Bart.
RICHARD DAVIES, Esq., Lord Lieutenant of Anglesea.
Colonel W. CORNWALLIS WEST, M.P., Lord Lieutenant of Denbighshire.
J. H. PULESTON, Esq., M.P.
WILLIAM RATHBONE, Esq., M.P.
STUART RENDEL, Esq. M.P.
JOHN ROBERTS, Esq., M.P.
MATTHEW ARNOLD, Esq., M.A., D.C.L., LL.D.
Professor T. McKENNA HUGHES, M.A.
LEWIS MORRIS, Esq., M.A., J.P.
A. C. HUMPHREYS OWEN, Esq., Glansevern.
Professor JOHN RHYS, M.A.
W. R. M. WYNNE, Esq., Peniarth.

Council:
JOHN DAVIES, C.C., *Chairman*.

| | |
|---|---|
| THOMAS ATSIMON. | J. HARRISON JONES. |
| REV. JAMES DAVIES, M.A. | R. ALBERT JONES, B.A. |
| REV. GRIFFITH ELLIS, M.A. | OWEN OWEN. |
| MAJOR JOHN EVANS, C.E. | JONATHAN PARRY. |
| ISAAC FOULKES. | JAMES VENMORE. |
| JOHN HUGHES, J.P. | DR. RICHARD WILLIAMS. |
| E. GWAENYS JONES. | LLEWELYN WYNNE. |

Treasurer:
T. ROWLAND HUGHES.


Honorary Secretary:
WILLIAM R. OWEN, 46, Beaumont Street, Liverpool.

***Swyddogion y Liverpool Welsh Society***

# Colofn y Myfyrwyr

## Antur wedi'r arholiadau - Thailand, Haf 2017

**gan Ela Owen**



Wrth dynnu at ddiwedd fy ail flwyddyn yn astudio Meddygaeth ym Mhrifysgol Lerpwl, yr unig beth oedd yn fy nghynnal i drwy'r arholiadau oedd gwybod fy mod am neidio ar awyren i Thailand cyn gynted y byddai nhw'n gorffen. Roeddwn i a fy mhartner Aimee wedi bod yn ymchwilio a trefnu'r trip ers misoedd bellach ac methu aros at ein trip cyntaf erioed i gyfandir Asia. Dim ond un deg chwech diwrnod oedd ganddom i weld y wlad enfawr hon, felly dyma benderfynu aros diwrnod neu ddau mewn saith gwahanol le o gwmpas ynysoedd de Thailand.


### Bangkok

Bangkok oedd yr arhosiad cyntaf wedi pymtheg awr o hedfan o Fanceinion. Roedd y gwres a'r lleithder yn sioc i'r system a bu treulio'r diwrnod cyntaf yn crwydro'r strydoedd a chwilota am fwytai gyda 'air con'. Yr uchafbwynt oedd gweld y ddinas o'r bar uchaf yn Bangkok, 62 llawr uwch y ddaear – golygfa a hanner. Roedd posib teimlo'r adeilad yn ysgwyd yn y gwynt!

### Phuket a Ynys Phi Phi

Wedi deuddydd roedd rhaid gadael Bangkok a hedfan i Phuket, er roeddwn yn edrych ymlaen at wynt y môr i dorri ar y lleithder. Doedd dim bwriad aros yn Phuket ond wrth i'r tacsi ein gollwng ni yn y porthladd, gwelsom y fferi i ynys Phi Phi yn gollwng ei rhaffau a ninnau yn ei gwylio'n hwylio i ffwrdd. Ffeindwyd hostel rhad yn Phuket am y noson a glawiodd hi drwy'r nos – yr unig law o'r holl wyliau er ei bod hi'n ganol y tymor gwlyb yno.

Roedd cyrraedd ynys Phi Phi y diwrnod wedyn yn ryddhad a wnaeth hi ddim siomi o gwbl! Dyma'r ynys brydferthaf (heblaw am Ynys Enlli wrth gwrs), heb ei sbwylio gan dwristiaeth. Cawsom drip o gwmpas yr ynys mewn cwch 'long tail' traddodiadol gan stopio ar wahanol draethau yn cynnwys y traeth enwog o'r ffilm 'The Beach' gyda Leonardo de Caprio. Tra'n nofio yn y môr, gwelsom siarc bach yn nofio drwy ganol yr holl bobl yn ddi wybod iddyn nhw cyn nofio i ffwrdd yn ôl i'r môr mawr. Daeth soned R. Williams Parry, 'Y Llwynog' i'm cof- "digwyddodd, darfu, megis seren wîb". Na - wnaeth y siarc ddim brathu neb diolch byth, ond bu Aimee ddigon anlwcus i gael ei brathu gan fwnci yn hwyrach ymlaen yn y dydd ac roedd rhaid sicrhau fod dim cynddaredd (*Rabies*) arni!





*Cwch 'long tail' traddodiadol yn Thailand*

### Railay

O ynys Phi Phi, aethom i'r dwyrain i Railay yn nhalaith Krabi. Dyma'r unig le y cawsom aros mewn llety gyda 'air conditioning'– roedd yna foethusrwydd yn Railay! Treuliwyd diwrnod yn caiacio o gwmpas yr arfordir yn ffeindio traethau bach anfarwol heb enaid arnyn nhw. Brysion ni yn ôl i'r cychod pan welon ni ôl traed a chynffon mwnci ar y tywod melyn! Gwelsom fachlud haul anhygoel wrth fwyta swper ar y traeth.

### Ynysoedd y Dwyrain

Croeswyd o Railay i ochr ddwyreiniol y tir mawr er mwyn ymweld a Koh Tao, Koh Phangan a Koh Samui. Erbyn hyn roedd ein boliau wedi setlo ar ôl wythnos gyntaf digon sigledig o safbwynt y stumog. Cawsom wledda ar fwydydd traddodiadol a'r sbeis yn ddigon i wlychu'ch dillad. Roedd bywyd môr Koh Tao yn anhygoel. Dyma pam mae'r ynys mor enwog ym myd deifio sgwba. Buom ni'n nofio am oria gyda'r pysgod yn chwyrlio o'n cwmpas.

Yn Koh Phangan buom yn ymlacio ac yn darllen ar y traeth, ymarfer 'Yoga' a bwyta'n pwysau mewn cyri gwyrdd!

Koh Samui oedd yr ynys olaf cyn mynd yn ôl i Bangkok. Ymwelon ni â pharc cenedlaethol Ang Thong sy'n cynnwys 42 ynys agos iawn at ei gilydd.

### Adref

Ar ôl gwyliau i'w gofio roedd hi'n amser dod nôl adref i ddechrau'r drydedd flwyddyn. Arhosom un noson yn Bangkok eto cyn dal yr awyren i Manceinion. Un diwrnod o orffwys a golchi dillad, yna cyfnewid y sbectol haul am y stethosgop unwaith eto er mwyn mentro i weithio yn Ysbyty Arrowe Park.

# FFEINDIO FY FFORDD ADREF

## *gan Elizabeth Jane Corbett, Melbourne, Awstralia*

*Beth yw'r ots gennyf i am Gymru?*
*Damwain a hap*
*Yw fy mod yn ei libart yn byw.*

Do'n i ddim yn bwriadu dysgu Cymraeg. Fe wnaeth ddigwydd drwy broses hap a damwain. Pan droais i'n bedwar deg oed, a chael creisis canol oed, penderfynnais fy mod am fentro ysgrifennu nofel. Dw i erioed wedi ysgrifennu nofel o'r blaen. Ond ro'n i wrth fy modd astudio hanes. Symudais i Awstralia yn fy mhlentyndod. Felly, penderfynais drio ysgrifennu nofel am y mewnfudo i Awstralia.

Cafodd fy nhad ei eni yn Lloegr. Ond Cymraes oedd fy mam. Felly, ar fympwy, penderfynais gynnwys cwpl o gymeriadau Cymreig yn y stori. Edrych yn ôl, dw i'n synnu pa mor ddifeddwl roedd y penderfyniad. Er hynny, mae'r digwyddiad wedi newid fy mywyd yn gyfan gwbwl.

Do'n i ddim yn gwybod llawer am Gymru ar y pryd. Dim ond hanes y diwydiant glo (daeth fy mam o'r De) a bod pobl o Gymru yn hoffi rygbi. Hefyd, fe wyddwn i am yr iaith Gymraeg. Ro'n i eisiau i fy nghwpl Cymreig roi ysbrydoliaeth i fy mhrif gymeriad, sef glas-lances pymtheg oed. Ond do'n i ddim yn meddwl byddai'n ffeindio glowyr neu pobl rygbi yn ysbrydoliaethus iawn. Ar ôl tipyn bach o waith ymchwil sylweddolais fod gan Gymru hanes barddonol hefyd. Darllenais y Mabinogion a llawer o chwedlau Cymreig. Fe dyfodd y cwpwl o Gymry yn storiwyr. Wnes i ddod ar ddraws gwybodaeth am ddosbarthiadau Cymraeg ym Melbourne hefyd. Ro'n i'n meddwl: *efallai fydd hi'n ddefnyddiol i ddysgu tipyn bach am yr iaith*. Wnes i gofrestru yn y dosbarth am un tymor!

Roedd pedwar o blant gennyf, yn byw yn fy nghartref yn y dyddiau yna. Mae'n rhaid i fi gydnabod, yr oedd y gallu i lefaru, *I'm going to Welsh class*, a cerdded mas y drws bob nos Fawrth yn rhan o'r apêl. Ond hefyd, wnes i ffeindio'r geiriau Gymraeg mor brydferth. Trodd un tymor o ddosbarthiadau i mewn i ddau dymor ac wedyn tri. Cyn i fi wybod, roeddwn wedi syrthio mewn cariad gyda'r iaith Gymraeg. Do'n i erioed wedi disgwyl siarad yr iaith. Ro'n i wedi astudio Siapanaeg yn yr ysgol ac ro'n i'n llwyr anobeithiol. Ond 'roedd ysgrifennu nofel gyda chymeriadau Cymraeg wedi dihunno darnau cudd ynof, darnau do'n i ddim wedi sylweddoli eu bod yn bodoli.

Ar ôl gorffen braslun cyntaf fy nofel, ro'n i'n lwcus i gael fy enwi ar restr fer am wobr datblygu llawysgrif. Hefyd, enillais y *Bristol Short Story Prize* gyda stori am blentyndod fy mam. Wedyn - trychineb. Dechreuodd ein merch ieuengaf ni weithio ei ffordd trwy rhestr o hunllefau gwaethaf pob rhiant. Wnaeth hi rhedeg bant a byw ar y strydoedd, brifo ei hunan, cwympo mas o'r ysgol a siop ladrata. Roedd ei hymddygiad yn cael effaith ofnadwy ar fy iechyd meddwl. Allwn i ddim ysgrifennu. Allwn i ddim gweithio. Mynnodd fy ngŵr i bod rhaid i fi fynd ar wyliau am dipyn. Roedd gennym llawer o bwyntiau *"Frequent Flyers"*. Penderfynais teithio i Gymru - gwlad yr iaith a'r straeon.

Er mwyn paratoi ar gyfer fy ngwyliau, awgrymodd ffrind dylwn i drio cwrs *Say Something in Welsh*. Roedd y syniad o drio cwrs ar lein yn rhyfedd ac yn llenwi fi gyda gofid. Ond penderfynais drio un gwers. Mae Aran - y dyn ar y podlediad - mor garedig. Dwedodd e wrth pawb ein bod yn gwneud yn dda iawn ac y byddwn yn cael llwyddiant. Bydd popeth yn iawn. Roedd ei eiriau fel glaw ar ddaear sych. Wnes i wers bob dydd, weithiau dwywaith y dydd. Cwympodd pum mlynedd o dosbarthiadau i'w lle - fel ceiniogau yn syrthio, syrthio, syrthio. Nawr, dweda i wrth bawb – gerddais i drwy'r amser tywyll yn gafael ar gwt yr hen iaith. Es i i gwrs haf yn Aberystwyth y flwyddyn wedyn. Pan ro'n i yno, cwrddais a Veronica Calarco, arlunydd o Awstralia oedd yn byw yng Nghymru. Pan wnaeth hi sefydlu Stiwdio Maelor yng Nghorris (stiwdio preswyl ar gyfer ysgrifenwyr ac arlunwyr) ceisais am le fel y gwirfoddolwr cyntaf.

Arhosais saith mis yn Stiwdio Maelor. Wnes i ymuno â grŵp Merched y Wawr a chofrestru mewn dosbarthiadau Cymraeg er mwyn gwella fy Nghymraeg. Gorffenais i fy nofel pan ro'n i'n byw yno hefyd. Mae hi'n nofel *"coming-of-age"* hanesyddol wedi ei osod ar long yr alltudion. Mae'r storiwyr Cymreig yn dweud eu chwedlau Cymreig yn ystod y daith. Nofel ychydig yn hudol a rhyfedd i ddweud y gwir. Do'n i ddim yn siwr os byddai unrhywun yn moyn ei chyhoeddi hi. Ond yn yr eiliad fawr honno yn eistedd gyda mynyddoedd Eryri o fy nghwmpas, doedd cyhoeddi cyfrol ddim yn bwysig, achos trwy'r broses greadigol, ro'n i wedi ffeindio fy ffordd adref.

*(Dysgwr yr iaith yw awdur yr erthygl hon, ac yr ydym yn ei llongyfarch hi am lunio nofel, The Tides Betweeen. Gol.)*

### *Cydymdeimlo a Chofio*

Cydymdeimlwn gyda meibion Mrs Eira Pari Huws, Porthaethwy yn y brofedigaeth lem o golli Mam dda. Bu Eira yn rhan annatod o fywyd Cymry yn Lerpwl fel ag ym Mhenbedw. Yr oedd yn wraig hardd a hoffus, a bu yn rhan bwysig o'r *Angor* yn yr wythdegau. Coffa da amdani.

Clywsom hefyd am farwolaeth y meddyg dawnus Dr. Edward Davies, Cerrigydrudion. Daeth i Brifysgol Lerpwl i astudio a bu yn feddyg yn yr Ysbyty Frenhinol cyn treulio 37 o flynyddoedd fel meddyg gwlad yn Uwchaled. Derbyniodd OBE am ei wasanaeth i'r gymuned a'i dderbyn i Orsedd y Beirdd fel Iolo Feddyg Gwlad. Ysgrifennodd yn ddifyr am feddygaeth ac y mae ei gyfrol *Moddion o Fag Meddyg* yn glasur bychan. Diolchir am ei fywyd.


## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes Newyddiaduriaeth Cymraeg 2018. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

**• RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

**i) Rhifyn Ebrill 2018 –** erbyn bore Iau, 1 Mawrth 2018 – neu ar y we i dbenrees@gmail.com

**ii) Rhifyn Mai 2018** erbyn bore Sul, 1 Ebrill 2018 – lluniau, adroddiadau, llythyron, etc. i benatgarthdrive@talktalk. net

**iii) Rhifyn Mehefin 2018 –** erbyn bore Mawrth, 1 Mai, 2018 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i Llanuwchllyn am 2 o'r gloch ar ddydd Mawrth 1 Mai, 2018.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

*Ysgrif Goffa*

# RALPH DENHOLM JONES

## (1929-2017), Llanberis (gynt o Lerpwl)


**Galwyd ein cyfaill Ralph Jones ar ddydd Sadwrn, 23 Rhagfyr 2017 ynghanol ei deulu yn Ficerdy Conwy, o ganol ei ofalon i'r dragwyddol orffwysfa. Un o fechgyn Llanberis ydoedd ac yno y treuliodd blynyddoedd ei blentyndod a'i lecyndod, a byddai'n ddiddorol gwrando arno yn adrodd am gymeriadau a gofiai ym more oes. Enillodd ysgoloriaeth William Pritchard o'r Ysgol Uwchradd i Goleg Prifysgol Cymru ym Mangor.**

**Yr oedd y bywyd gwyllt a'r amgylchedd a geid oamgylch Llyn Padarn a'r Wyddfa wedi dylanwadu arno ac arbenigodd ym myd bioleg, ac yn benodol, fel *limnologist*, sef astudio ecoleg y llynnoedd a'r afonydd. Ar ôl ennill tystysgrif athro cychwynodd ar ei rawd ym Mhenarlâg ac yna Bangor, cyn dod i Lerpwl fel darlithydd ac ar ôl hynny Prif Ddarlithydd mewn Gwyddoniaeth yng Ngholeg Anglicanaidd sydd bellach yn rhan o Brifysgol Hope.**

**Yr oedd yn meddwl y byd o'i deulu, ei briod Nancy a fu yn ddylanwadol ym myd addysg ac fel Prifathrawes yn y ddinas. Cannwyll ei llygad oedd ei merch Eryl a'r wyresau, Gwen ac Anna. Yr oedd yr Eglwys Anglicanaidd yn allweddol o groesawus i'w bywydau, a balch oeddynt o groesawu i'w plith David Parry, sydd bellach yn offeiriad plwyf tref Conwy. Cyfranodd Ralph a Nancy yn helaeth i fywyd gweinyddol ac ysbrydol Eglwys Gymraeg Dewi Sant yn Lerpwl gan ysgwyddo cyfrifoldebau am y dystiolaeth. Yr oedd yn un o ymddiriedolwyr Cronfa Dewi Sant esgobaeth Lerpwl, ef a'r Parchedig Geoffrey Davies, Hugh Williams, Eric Thomas, a gofalent am y dystiolaeth Gymraeg. Cefnogant Caplaniaeth Cymry Glannau Mersi ym mhob rhyw fodd.**

**Ymhyfrydai Ralph yn ei Gymreictod a bu yn gefnogol i'r bywyd Cymraeg, Cymdeithas Cymry Lerpwl a Chylch Pump ar Hugain. Yr oedd ganddo ddiddordebau deallusol a cheid croeso mawr ganddo ef a'i briod yn y cartref yn Childwall. Chwithdod mawr i Gymry Lerpwl oedd ffarwelio â hwy pymtheg mlynedd yn ôl pan benderfynodd y ddau ddychwelyd i'w cynefin yn Arfon. Cawsant ymddeoliad hir a bendithiol a chyfle i wasanaethu llu o gymdeithasau gan gynnwys Clwb Eryri, Conwy (Cymdeithas Athrawon Wedi Ymddeol), elusen addysgol Cronfa R. H. Owen fel ymddiriedolwr, ac yn arbennig eglwys ei febyd, Eglwys Sant Padarn, Llanberis.**

**Pan ddychwelodd i Lanberis cawsant yr hyfrydwch o gyfeillachu gyda'r diweddar Olwena Morris (chwaer Nancy) a gyda brodyr Ralph, sef Cyril, y diweddar Tom, a'i chwaer Margaret a'u teuluoedd. Teimlodd i'r byw golli ei**



***Ralph Jones***

**briod Nancy yn 2015 ar ôl 60 mlynedd o fywyd priodasol dedwydd a chofiaf o hyd ei ddiolchgarwch am y coffâd a luniais i'r *Angor* er cof amdani. Yr oedd yn ddarllenwr o'r *Angor* o'r cychwyn cyntaf, a braf oedd derbyn gair cyson a ddeuai oddi wrtho o werthfawrogiad.**

**Bu'r arwyl ar ddydd Gwener, 5 Ionawr 2018 yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis pan y daeth cynulleidfa gref ynghyd i gydnabod ei fywyd a'i waith a'i gyfraniad nodedig ymhlith trigolion Llanber ac am ei ffyddlondeb i'w wreiddiau am 30 mlynedd yn ninas Lerpwl. Er mai prin dwy flynedd y bu yn cartrefu gyda Eryl a David, gwnaeth ei hun yn ddefnyddiol ac yn annwyl ymhlith plwyfolion tref Conwy. Cymerwyd yr arwyl gan y Parchedig Ddr. Carol Roberts, ynghyd a'r Canon Robert Townsend, Canon Philip Hughes a'r Parchedig Allan Wilcox gyda chyfraniadau gan ei ddwy wyres, Gwen a Anna Parry a'i fab-yng-nghyfraith y Parchedig David Parry. Yr organydd oedd Iwan Wyn Williams.**

**Diolchwn am ei ddoniau fel darlithydd, pennaeth Adran Coleg, Warden, ei barodrwydd i gymeryd cyfrifoldeb ac i annerch cyfarfodydd, ei gyfeillgarwch, ei hiwmor a chynhesrwydd ei bersonoliaeth rhadlon. Gallai ddweud yng ngeiriau C. T. Studd: "Os yw Iesu Grist yn Dduw ac wedi marw drosof i, yna does yr un aberth yn rhy fawr i minnau ei chyflawni drosto Ef".**

**Dyna oedd ysgogiad ei fywyd hardd a gwasanaethgar.**

***D. Ben Rees***

*Crwydro Cymru*

# CASTELL RHUDDLAN

O'r chwech castell a gynlluniwyd ym 1277 nid oes amheuaeth mai Castell Rhuddlan ger ceg Afon Clwyd oedd y pwysicaf ohonynt. Gwariwyd mwy o arian yn y flwyddyn gyntaf o adeiladu hwn, sef ym 1278, nag a wariwyd ar gestyll Fflint, Aberystwyth a Llanfair-ym-Muallt gyda'i gilydd.

Gwelir yn y llun hwn gryn dipyn ar y castell, a adeiladwyd gan un o'r meistri pennaf, Iago o San Siôr, gŵr a ddaeth yn wreiddiol o Ffrainc. Y mae tyrau'r castell yn sefyll 65 o droedfeddi mewn uchder ac yn brawf o lwyddiant eithriadol yr adeiladu: yn ôl yr arbenigwyr nid ydynt ond rhyw bum troedfedd yn llai nag oeddynt yn wreiddiol. Mae 37 o dyllau i saethu a lluchio picellau i'w canfod ynddynt a pharha'r tyrau i warchod y fro, er nad oes angen hynny ar y defaid a'r elyrch sydd yn awr yn mwynhau'r tawelwch sydd yno.

Yn cydfynd â'r castell, adeiladwyd tref gaerog ar gyfer y marsiandwyr o Loegr a blanwyd yno er mwyn boddi'r Cymry a dyrrai ar ôl tywysogion Gwynedd. Mae llawer o Seisnigrwydd presennol y cylch yn deillio yn ôl i 1277 a 1278.



# TUDALEN HAMDDENA

## *gan Ken Williams*

## A) BLE, PWY A BETH?

1. “Prin gallaf” dorri i lawr ymhellach i’r enw rhoddir i’r lle hwn (7,1,1)
2. Llawer “A barn efo” y lle hwn ar lan y môr; o hyd yn dda (8)
3. “Ceir d’enw o.k. o’r” Angor, a chornel bach dy hunan (8,4)
4. “Er wrtho’i” hun, mae “olwg bron fel Iolo” (7)
5. “A byw byd od” ymhlith y tylwyth teg efallai, a rhywbeth i eistedd arno (4,1,4)
6. Yr “enw Carys, y modd” i gael coeden hardd (12)

## B) GWNEUD GEIRIAU

| | | |
|---|---|---|
| N | E | S |
| D | A | L |
| LL | O | I |

Gwnewch allan eiriau welir yma i gynnwys PUMP llythyren neu mwy; y llythrennau i’w defnyddio ond unwaith. Mae un gair yn cynnwys y naw; hint fechan – Tref yng Nghymru mae yma 32. Os ydych am fentro ymhellach i gynnwys geiriau o bedair llythyrennau e.e, aden, asen, mae yma 40. Ni fydd y rhai hyn yn cael eu rhestru ar wahan i’r 32.

## C) GAIR AM AIR

**DYNESAFONIDWYLODDIYMA**

Gwnewch eirian allan o’r rhestr uchod, i gynnwys tair llythyren neu mwy i redeg yn union ar ôl ei gilydd. e.e. DYN, NES, DYNES … Mae yma 17.

Gweler yr atebion ar dudalen 12

# GŴYL DDRAMA CORWEN A’R CYLCH 2018



Gyda thymor cyflwyno dramâu mewn sawl tre a phentref yn ei hanterth, dyma gyfle i dynnu sylw at Wŷl Ddrama Corwen fydd yn cael ei chynnal eleni rhwng Mai 7-12. Lleolir yr Ŵyl flynyddol hon yn Neuadd Edeyrnion yng nghanol tre Corwen ac eleni rydym yn dathlu 37 mlynedd ers ei sefydlu.

Y Beirniad eleni yw Steffan Parry. Wedi ei fagu ar fferm Tu Ucha’r Llyn ym mhentref Gwyddelwern, ger Corwen, Steffan oedd enillydd Gwobr Goffa Richard Burton yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Meifod yn 2013. Wedi graddio o Goleg y Drindod, Caerfyrddin, yn dilyn cwrs drama, bu’n actio ar y gyfres deledu Rownd a Rownd yn ogystal â chynyrchiadau eraill cyn troi at fyd addysg.

Mae gan yr Ŵyl ***cystadlaethau chwarae drama un act Gymraeg i wahanol oedran*** yn ogystal ***â chystadleuaeth cyflwyniad i grŵp o ddysgwyr y Gymraeg.***

Eleni cynigir cystadleuaeth newydd sbon sef Cyflwyno Monolog bedwar munud o hyd i actorion 19 oed ac iau. Testun: agored.

Bydd tlysau/cwpanau i actor a chwmni gorau ymhob oedran yn ogystal â gwobr ariannol.

Yn ogystal â’r cystadlaethau llwyfan, mae gan yr Ŵyl flynyddol hon gystadleuaeth ysgrifennu drama un act. Dylid anfon y gwaith i’r ysgrifennydd erbyn Ebrill 1.

Beth am fynd amdani gwmnïau drama? Dewch draw i Gorwen ym mis Mai i gystadlu am wobrau yn un o wyliau drama hynaf Gogledd Cymru. Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl ym mro Edeyrnion.

Am fwy o fanylion neu ffurflen gais, (dyddiad cau dychwelyd ffurflen gais yw Mawrth 31), cysylltwch â’r Ysgrifennydd, Nesta Evans, Frondeg, Maerdy, Corwen. LL21 0NY. Ffon: 01490 460361 Gweplyfr: Gŵyl Ddrama Corwen a’r Cylch




*Annwyl Golygydd Yr Angor*

Ni allaf gytuno â Ben Rees ar ei asesiad o'r sefyllfa y mae clwb pêl-droed Everton ynddi ar hyn o bryd. Mae'n ymddangos ei fod yn gosod llawer o'r bai ar Ronald Koeman.

Os ydym yn ystyried ei record mae'n eithaf da. Fel prif hyfforddwr, mae Koeman wedi ennill tair teitl Eredivisie yn yr Iseldiroedd. Ddwywaith gydag Ajax (2001-02 a 2003-04) ac unwaith gyda PSV (2006-07). Hefyd, roedd ganddo gyfnodau ym Mhortiwgal gyda Benfica a Sbaen gyda Valencia, gan hyfforddi'r 'Los Che' i fuddugoliaeth yng Nghopa del Rey 2007-08.

Cyn ymuno ag Everton roedd yn rheolwr / prif hyfforddwr gyda Southampton yn yr Uwch Gynghrair. Daeth ei dymor cyntaf yn Stadiwm y Santes Fair i ben gyda llwyddiant hefo Southampton yn gorffen yn seithfed, gan arwain at le ar gyfer y rowndiau cymhwyster yr Europa League. Yn y tymor canlynol, bu Koeman yn arwain y Seintiau i'r chweched safle. Eu gorffeniad uchaf, a'r cyfanswm mwyaf o bwyntiau yn ei hanes yn yr Uwch Gynghrair. O'r record hon, mae'n ymddengys nad yw chwaraewyr yn ei glybiau blaenorol wedi cael unrhyw broblemau gyda'i steil rheoli.

Fel ym mhob gêm, mae'r chwaraewyr yn gyfrifol am y canlyniadau ar y cae. Mae rhai chwaraewyr wedi dangos diffyg ymladd yn y tîm cyntaf y tymor hwn. Mae perfformiadau diog, diynni a diffygiol wedi dod yn ddigwyddiad cyffredin ac maent wedi gadael y rheolwr a'r clwb i lawr, hyd yn oed dan reolaeth Unsworth, yn dilyn diswyddiad Koeman.

Ni chredaf y bydd rheolwr newydd yn gwneud yn well oni bai bod y garfan yn cael ei gryfhau a bod agwedd yr holl chwaraewyr yn newid.

Daw'r sylwadau hyn gan gefnogwr Lerpwl nad yw'n dymuno gweld dirywiad Everton, o bosibl i'r Campwriaeth.

Pwy fyddem ni'n ei chwarae (a churo) yn y 'Derby'?

Yr eiddoch yn gywir,
*David Williams (Karslake).*

**Cysylltwch â'r Angor:**
**dbenrees@gmail.com**

# CYHOEDDI CYFLWYNWYR NEWYDD DECHRAU CANU DECHRAU CANMOL




Bydd wynebau newydd a chyfarwydd yn dod ynghyd i gyflwyno un o gyfresi hynaf S4C ar ei newydd wedd nos Sul, 4 Chwefror ar S4C.

Mae'r gyfres grefyddol ***Dechrau Canu Dechrau Canu*** wedi bod yn rhan annatod o amserlen S4C ers 1989, ond o hyn ymlaen bydd pump cyflwynydd newydd yn ymuno âr rhaglen.

Yn eu plith mae cyflwynydd BBC News at Ten, Huw Edwards, a'r dyfarnwr rygbi Nigel Owens sydd wedi dweud yn y gorffennol mai'r emyn 'Mor Fawr Wyt Ti' yw'r gân olaf mae'n gwrando arni cyn camu ar y cae.

Y cyflwynydd Lisa Gwilym, yr actor a cherddor Ryland Teifi a'r cyflwynydd Nia Roberts, sydd wedi cyflwyno'r gyfres yn y gorffennol, sy'n cwblhau'r rhestr.

Mae'r gyfres yn cynnwys canu mawl mewn amryw o leoliadau ar draws Cymru a chyfweliadau gyda phobl am eu ffydd a chredoau. Bydd rhaglenni arbennig yn ystod y flwyddyn yn nodi'r dyddiadau pwysig yn y calendr crefyddol ac achlysuron cenedlaethol.

Mi fydd rhaglen gynta'r gyfres yn dilyn y thema rygbi i gyd-fynd a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad 2018. Owain Arwel Hughes fydd yn arwain y canu cynulleidfaol sy'n dod o Eglwys Dewi Sant, Castell Nedd.

Bydd sgyrsiau gyda'r sylwebydd rygbi Alun Wyn Bevan ac arweinydd Côr y Gleision, Richard Vaughan yn ogystal â chyfweliad gyda Manon a Gwenan Gravell, merched y diweddar Ray Gravell.

Meddai Amanda Rees, Cyfarwydd Creadigol Cynnwys S4C, "Mae Dechrau Canu Dechrau Canmol yn un o gonglfeini gwasanaeth S4C ar nos Sul. Mae'n gyfle i ddathlu'r traddodiad mawl a chanu arbennig sy'n ein nodweddu ni fel gwlad, yn ogystal â chyfle i gael sgyrsiau difyr gydag amrywiaeth o bobl am eu profiadau ysbrydol a'r gwerthoedd moesol sy'n bwysig iddyn nhw. Mi fydd hi'n braf iawn cael gweld y cyflwynwyr newydd ar y sgrin ym mis Chwefror, gyda phob un ohonyn nhw'n cynnig rhywbeth gwahanol a chyffrous i'r gyfres."

## DIOLCH


Dymuna Marian a finnau drwy gyfrwng yr 'Angor' ddatgan ein diolch i bawb sydd wedi bod yn gefn i ni dros gyfnod pryderus ac anodd yn ein bywydau.


Bu Nellie fy chwaer; oedd yn byw ym mhentref ein magwraeth sef Rhydwyn, Sir Fôn; farw ar 18fed Ionawr wedi cyfnod gweddol fyr yn Ysbyty Gwynedd. Cawsom bob gofal a chefnogaeth gan ein gweinidog a'n tylwyth Cymraeg ar y Glannau a dymunwn ddiolch am yr ymweliadau, galwadau ffôn a'r cardiau a dderbyniasom. Daeth y cysylltiadau i gyd at ei gilydd inni yn yr angladd a arweiniwyd yn deimladwy gan y Parchedig Emlyn Richards. Mae chwithdod a cholled ond ar yr un pryd sylweddolwn mor bwysig ydyw ein Ffydd a chefnogaeth ein ffrindiau Cristionogol.

***John a Marian Lyons, Pentref Knowsley, Lerpwl.***

# CYFROL NEWYDD AR Y FARCHNAD

Y mae Cyhoeddiadau Modern Cymreig ar ran Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Lerpwl yn falch o gyhoeddi fod y gyfrol hiraddewid wedi cyrraedd Lerpwl. Cyfrol ddwyieithog



*This bilingual volume is based on a successful festival held in 2016 at the Welsh Centre and Presbyterian Chapel based at Heathfield road Auckland Road, Liverpool. It contains the well presented lectures of Professor Dr D.Ben Rees of Allerton and Dr Lawrence Holden of Birkenhead as well as the Welsh Language Service in memory of the David Roberts family of Hope Street, Liverpool and Abergele. Dr Arthur Thomas has given an account of the highly successful weekend Festival which attracted descendants of David Roberts from all Britain. Long neglected Liberal politicians and Welsh Presbyterian benefactors are remembered for our generation through the efforts of Merseyside Welsh Heritage Society and Modern Welsh Publications of Allerton and the editor Professor Reverend Dr D.Ben Rees.*

***Clawr Cefn***



***John Roberts, Aelod Seneddol***

*Tudalennau 1-89.*
*Gwelir gwaith*
*Dr. Lawrence Holden,*
*Penbedw,*
*Dr. Arthur Thomas*
*a'r Golygydd,*
*Dr. D. Ben Rees.*

*Pris y gyfrol trwy'r post – £12.00*

*anfoner i dbenrees@gmail.com am gopi*



***Lawrence Holden***

---

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15. Cysodwyd ac argraffwyd gan Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

## Atebion Tudalen Hamddena

**A) BLE, PWY A BETH?** – 1. Llanfair P.G.; 2. Aberafan; 3. Roderick Owen; 4. Iorwerth; 5. Bwyd-y-Boda; 6. Sycamorwydden.

**B) GWNEUD GEIRIAU** – aelod, asedion, elain, elion, enaid, dalen, deial, deiol, deallol, dinas, dinasol, disôn, dolen, ideol, iasol, ledio, lodes, lladin, LLANIDLOES, lleol, llesio, llesaol, llednais, lledol, llinos, nesad, nesaol, nesiad, sidell, sidan, selio, soled.

**C) GAIR AM AIR** – dyn, nes, dynes, nes, nesaf, saf, safon, safoni, oni, onid, nid, dwy wylo, dwylo, wylodd, oddi, yma.